

## PRIFFYRDD, CYMRU

### 200- Rhif

#### DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

#### GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (RHODFA'R GORLLEWIN A QUAY STREET, Y RHYL, SIR DDINBYCH) 200-

*Gwnaed* 200-

*Yn dod i rym* 200-

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1990”), a phob pŵer galluogi arall(2).

1. Yn y Gorchymyn hwn: -

ystyr “y Cyngor” (*“the Council”*) yw Cyngor Sir Ddinbych;

ystyr “y datblygwr” (*“the developer”*) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y rhoddwyd y caniatâd cynllunio y cyfeirir ato isod ar ei gyfer.

ystyr “y plan a adneuwyd” (*“the deposited plan”*) yw y plan a enwir “Gorchymyn Cau Priffyrdd (Rhodfa'r Gorllewin a Quay Street, Y Rhyl, Sir Ddinbych) 200-” sydd gyda'r Gorchymyn hwn.

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau sebra ar y map a adneuwyd, wedi'u bodloni bod cau yn angenrheidiol i alluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 27 Tachwedd 2007 dan y cyfeirnod 45/2006/1200/PF.

3. Creir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y priffyrdd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir gan ddotwaith ar y plan a adneuwyd, a byddant, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980(3), yn briffyrdd sydd i'w cynnal ar draul y pwrs cyhoeddus a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd ar eu cyfer.

4. Ni chaniateir cau'r darnau o briffordd a ddisgrifir yn i Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn:-

(a) hyd nes bydd y datblygwr wedi darparu'r briffordd newydd a ddisgrifir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(b) hyd nes i'r datblygwr ddarparu, i foddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos y modd y caeir y darnau o'r briffordd;

(c) hyd nes bydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi dechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r rhannau o briffordd i ganiatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(ch) y bydd Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr yn cadarnhau bod darpariaethau (a), (b) ac (c) o'r erthygl hon wedi'u cyflawni.

5. Os bydd, yn union cyn cau'r rhan o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, unrhyw offer ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yn parhau i fod â'r un hawliau o ran yr offer ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

6. Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 3 o'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod y caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn weithredol ar y dyddiad y cyhoeddir gyntaf yr hysbysiad yn nodi ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990. Enw'r gorchymyn hwn yw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Rhodfa'r Gorllewin a Quay Street, Y Rhyl, Sir Ddinbych) 200-".

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

200-

## **S C SHOULER**

Cyfarwyddwr Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cynulliad Cymru

- (1) 1990 p.8.
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, mae'r pwerau hyn bellach wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (3) 1980 p.66

## ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

### **Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn**

Darn afreolaidd o briffordd sy'n rhan o Rodfa'r Gorllewin, o'i chyffordd â Wellington Road hyd at ei chyffordd â Sydenham Avenue, â'i bellter ar y mwyaf yn 451 o fetrau â'i led ar y mwyaf yn 90 o fetrau ac wedi'i labelu ag A a'i ddangos â llinellau sebra ar y map a adneuwyd.

Darn afreolaidd o briffordd sy'n rhan o Quay Street, o'i chyffordd â Rhodfa'r Gorllewin i gyfeiriad deheuol am bellter o 59 o fetrau â'i led ar y mwyaf yn 29 o fetrau ac wedi'i labelu gyda B a'i ddangos â llinellau sebra ar y map a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o Quay Street, o'i chyffordd â Wellington Road i gyfeiriad gogleddol am bellter o 54 o fetrau â'i led ar y mwyaf yn 48 o fetrau ac wedi'i labelu ag C a'i ddangos â llinellau sebra ar y map a adneuwyd.

## ATODLEN 2

### **Disgrifiad o'r darn o briffordd newydd sydd i'w ddarparu.**

Darn afreolaidd o gyffordd Rhodfa'r Gorllewin a Sydenham Avenue i gyfeiriad cyffredinol y de-orllewin i ymuno â Wellington Road 115 o fetrau i'r dwyrain o'r gylchfan ar y gyffordd rhwng Rhodfa'r Gorllewin a Wellington Road, am bellter o 382 o fetrau â'i led ar y mwyaf yn 90 o fetrau ac a ddangosir â dotwaith ar y map a adneuwyd.

## ATODLEN 3

### **Y Datblygiad Arfaethedig**

Dymchwel ac Ail-ddatblygu ar Safle Ocean Beach Wellington Road, Y Rhyl, er mwyn darparu datblygiad defnydd cymysg gan gynnwys fflatiau preswyl, gwesty, cynnull a hamdden, busnes, manwerthu, caffis, bwytai a thafarndai, manau parcio, defnydd newydd yn y maes cyhoeddus a defnydd atodol gyda phrifyrdd cysylltiedig a gwaith arall gan gynnwys tyrbinau gwynt ac, o bosibl, gosodiadau haul PV.

## **DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

### **GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (RHODFA'R GORLLEWIN A QUAY STREET, Y RHYL, SIR DDINBYCH) 200-**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn ac yn darparu rhan newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2.

Os gwneir y Gorchymyn, dim ond er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud yr awdurdodir cau'r briffordd, a hynny yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan Gyngor Sir Ddinbych ar 27 Tachwedd 2007 o dan y cyfeirnod 45/2006/1200/PF. Bydd y Gorchymyn yn peidio â bod yn effeithiol os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os caiff y caniatâd ei ddirymu.

Yn ystod y 28 niwrnod o 12 Mawrth 2008, gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r map a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell y Rhyl, Church Street, y Rhyl, Sir Ddinbych LL18 3AA neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod, gan ddyfynnu cyfeirnod Llywodraeth Cynulliad Cymru CZ510-5-15-qA184147/1.

Yn ystod y cyfnod uchod o 28 niwrnod, caiff unrhyw berson wrthwynebu gwneud y Gorchymyn, drwy hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Y Gangen Orchmynion, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ (gan ddyfynnu cyfeirnod CZ510-5-15-qA184147). Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill, bydd yr wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi i ni a'ch data personol yn cael eu trosglwyddo i'r ceisydd/i'r datblygwr ac yn achlysurol i'r awdurdod priffyrdd lleol i'w galluogi hwy i ymateb i chi. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datguddio eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol i'n galluogi i ddelio â'r materion yr ydych wedi tynnu'n sylw atynt. Pan fydd Gorchymyn Cau yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (YC), bydd pob gohebiaeth yn cael ei gopïo i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn y Llyfrgell YC pan fydd ar gael i'r cyhoedd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn [www.cymru.gov.uk/index.htm](http://www.cymru.gov.uk/index.htm)(detholer: Deddfwriaeth / Deddfwriaeth Ddrafft / Offerynnau Anstatudol Drafft / Gorchmynion Cau TCPA).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth Cymru, y Gangen Orchmynion, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**M D BURNELL**

Yr Is-adran Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**ATODLEN 1**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn**

Darn afreolaidd o briffordd sy'n rhan o Rodfa'r Gorllewin, o'i chyffordd â Wellington Road hyd at ei chyffordd â Sydenham Avenue, â'i bellter ar y mwyaf yn 451 o fetrau â'i led ar y mwyaf yn 90 o fetrau ac wedi'i labelu ag A a'i ddangos â llinellau sebra ar y map a adneuwyd.

Darn afreolaidd o briffordd sy'n rhan o Quay Street, o'i chyffordd â Rhodfa'r Gorllewin i gyfeiriad deheuol am bellter o 59 o fetrau â'i led ar y mwyaf yn 29 o fetrau ac wedi'i labelu gyda B a'i ddangos â llinellau sebra ar y map a adneuwyd.

Rhan afreolaidd o briffordd sy'n rhan o Quay Street, o'i chyffordd â Wellington Road i gyfeiriad gogleddol am bellter o 54 o fetrau â'i led ar y mwyaf yn 48 o fetrau ac wedi'i labelu ag C a'i ddangos â llinellau sebra ar y map a adneuwyd.

**ATODLEN 2**

**Disgrifiad o'r darn o briffordd newydd sydd i'w ddarparu.**

Rhan afreolaidd o gyffordd Rhodfa'r Gorllewin a Sydenham Avenue i gyfeiriad cyffredinol y de-orllewin i ymuno â Wellington Road 115 o fetrau i'r dwyrain o'r gylchfan ar y gyffordd rhwng Rhodfa'r Gorllewin a Wellington Road, am bellter o 382 o fetrau â'i led ar y mwyaf yn 90 o fetrau ac a ddangosir â dotwaith ar y map a adneuwyd.

### **ATODLEN 3**

#### **Y Datblygiad Arfaethedig**

Dymchwel ac Ail-ddatblygu ar Safle Ocean Beach Wellington Road, Y Rhyl, er mwyn darparu datblygiad defnydd cymysg gan gynnwys fflatiau preswyl, gwesty, cynull a hamdden, busnes, mânwerthu, caffis, bwytai a thafarndai, mannau parcio, defnydd newydd yn y maes cyhoeddus a defnydd atodol gyda phriffyrdd cysylltiedig a gwaith arall gan gynnwys tyrbinau gwynt ac, o bosibl, gosodiadau haul PV.